

Nodweddion Diddorol

A Mae Pennal yn fwyaf enwog am berthynas hanesyddol y pentref ag Owain Glyndŵr, y Cymro olaf i feddu ar deitl Tywysog Cymru. Ysgogodd wrthryfel ffyrnig a hir yn erbyn rheolaeth Lloegr yng Nghymru, ond yn y pen draw, ni fu'n llwyddiannus. Yn 1406, ysgrifennodd Owain Glyndŵr o Bennal at Siarl VI o Ffrainc, gan addo y byddai esgobion Cymru' fyddlon i Bab Ffrainc, Benedict XIII, pe byddai Ffrainc yn dod i'w gynorthwyo trwy drefnu croesgad yn erbyn Harri IV o Loegr. Atebodd Siarl VI ag anogaeth, ond prin ddim byd arall. Sefydlwyd Eglwys San Pedr yn wreiddiol yn y 6ed ganrif gan y cenhadwyr Celtaidd, Tanwg Sant ac Eithrias Sant. Yn yr eglwys mae ffacsimili o lythyr Owain Glyndŵr at Siarl VI, a phaentiad o'r cynulliad mawr a alwodd at ei gilydd. Ysgrifennodd Llywelyn Goch, bardd enwog o Gymru o'r 14eg Ganrif, un o'r cerddi serch mwyaf ingol yn y Gymraeg. Y stori yw bod Lleucu wedi syrthio mewn cariad â Llywelyn Goch ap Meurig Hen, ond nad oedd ei thad yn hoff ohono. Bu rhaid i Llywelyn deithio i lawr i dde Cymru, ond gwnaeth addewid i Lleucu y byddai'n dychwelyd i'w phriodi. Fodd bynnag, yn ei absenoldeb, dywedodd tad Lleucu wrthi fod Llywelyn wedi priodi rhywun arall, a bu farw Lleucu druan o dorcalon. Dychwelodd Llywelyn cyn hir i'w phriodi, ond yn hytrach claddodd ei ddarpar wraig o dan yr allor yn Eglwys San Pedr.

- B** Wrth gerdded trwy'r coed cewch eich syfrdanu gan glustogau toreithiog mwsoglau a llysiâu'r afu sy'n addurno llawr y coetir. Edrychwch yn agosach ac fe welwch fod y mwsoglau hyn yn fregus iawn a'u bod wedi'u lliwio'n hyfryd. Yn ogystal â darparu cartref i greaduriaid y coetir, mae'r clustogau meddal hyn yn gweithredu fel sbwng enfawr sy'n arafu llif y glaw i'n hafonydd ac sy'n helpu i'n hamddiffyn rhag llifogydd sydyn.
- C** Gellir defnyddio cen y coed yn ddangosyddion llygredd. Gan nad oes ganddynt wreiddiau, maent yn amsugno dŵr ac aer trwy'r haen amddiffynnol uwch sy'n eu gwneud yn sensitif i lygredd atmosfferig.
Cadwch lygad am: *Cen Pen Matsien (Cladonia floerkeana)* sy'n hoff iawn o goed marw sy'n pydru, pyst ffensio, rhostiroedd a gweundiroedd. Gellir adnabod y rhain trwy'r capiau coch llachar.
- D** Gallai'r ucheldir ymddangos yn ddigroeso, ond edrychwch o'ch cwmpas ac fe welwch arwyddion o fywyd gwyllt ym mhobman. Gwrandewch am alwad hiraethus yr ehedydd yn yr haf, y gigfran yn perfformio'i harddangosfeydd dramatig yn yr awyr neu lwybrau mamaliaid ar hyd y llwybr glaswelltog.
- E** Wrth edrych i lawr fe welwch yr Afon Dyfi'n troelli i lawr i'r môr. Ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, daeth llechi o chwareli lleol dros y mynydd gan bynfeirch i'r lanfa yn Llyn Bwtri ym Mhennal.

Points of Interest

A Pennal is best known for its historical association with Owain Glyndŵr, the last native Welshman to hold the title Prince of Wales. He instigated a fierce and long-running but ultimately unsuccessful revolt against English rule in Wales. In 1406, Owain Glyndŵr wrote from Pennal to Charles VI of France, pledging that Welsh bishops would pay allegiance to the French Pope, Benedict XIII, if only France would come to his aid by organising a crusade against Henry IV of England. Charles VI replied with encouragement but little else. St Peter's Church was originally founded in the 6th century by Celtic missionaries, St Tanwg and St Eithrias. In the church is a facsimile of Owain Glyndŵr's letter to Charles VI, and a painting of the great assembly he called. Llywelyn Goch, a famed 14th Century Welsh poet, wrote one of the finest and most poignant love-poems in Welsh. The story goes that Lleucu had fallen in love with Llywelyn Goch ap Meurig Hen (son of Old Meurig), but her father didn't like him. Llywelyn had to travel down to South Wales but promised Lleucu that he'd come back and marry her.

However, in his absence, Lleucu's father told her that Llywelyn had married someone else, and poor Lleucu died of a broken heart. Llewelyn soon returned to marry her, but instead buried his bride-to-be under the altar in St Peter's church.

B Walking through the wood you will be struck by the luxuriant cushions of mosses and liverworts that adorn the woodland floor. Look closer, and you will see that these mosses are very delicate and beautifully coloured. As well as providing a home for woodland creatures, these soft cushions act like a giant sponge slowing down the flow of rain into our rivers and help to protect us against flash floods.

C Lichens can be used as pollution indicators. Because they don't have roots, they absorb water and air through the upper protective layer which makes them sensitive to atmospheric pollution.

Look out for: *Devil's matchstick (Cladonia floerkeana)* which has a fondness for dead and rotting wood, fence posts, heaths and moors. This lichen is distinguished by the bright red caps.

Cladonia floerkeana



Taith Gerdded Pennal

Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Pennal Walk

D Uplands may seem inhospitable, but look around and you will see signs of wildlife all around. Listen for the wistful call of the skylark in summer, the raven performing its dramatic aerial displays or mammal tracks along the grassy path.

E Looking down you will see the River Dyfi winding its way to the sea. In the early nineteenth century slate from local quarries was brought over the mountain by pack horse to the wharf at Llyn Bwtri in Pennal.



Dechrau: Pentref Pennal
Cyfeirnod Grid: SH 699 004
Pellter: 13.2 km – 8.3 milltir
Gradd: Ymdrechgar – cerdded ar hyd mynyddoedd, ni ddylech gerdded y daith os nad yw'n dywydd clir

Tirwedd: Ffordd darmac, llwybrau cadarn, coetir, gweundir agored â daear gorsiog a thwmpathog. Nid yw'r llwybrau bob tro wedi'u diffinio

Mapiau: Arolwg Ordnans Explorer – OL 23
Lluniaeth: Gwesty Glan yr Afon, bwyty Plas Talgarth a siop y pentref




Start: Pennal village
Grid Reference: SH 699 004
Distance: 13.2km – 8.3 miles
Grade: Strenuous – A mountain walk, not to be undertaken in poor visibility
Terrain: Tarmac road, firm tracks, woodland, open moorland with boggy, tussocky ground, fields. Route sometimes undefined

Maps: OS Explorer – OL 23
Refreshments: Riverside Hotel, Plas Talgarth restaurant and village shop

- 1 Dechreuwch o'r bont yn y pentref **A** a cherddwch i ffordd o'r briffordd i ddilyn arwyddion Llwybr Arfordir Cymru i fyny ffordd ochr, heibio dau gapel mawr ac allan o'r pentref.
- 2 Lle mae'r ffordd yn ymrannu, trowch i'r dde ac yna nes ymlaen trowch i'r dde i fyny llwybr coedwig, heibio man parcio ar y chwith a chadwch i'r chwith pan fydd y ffordd yn ymrannu ddwywaith eto i groesi pont. Cerddwch i'r chwith o gwmpas y bachdro i ddilyn y trac i fyny nes iddo droi yn sydyn i'r chwith o flaen polyn telegraff dwbl.
- 3 Yma, trowch i'r dde i lawr y llethr ac yna i'r chwith ac ymlaen ar draws y llechwedd gan droi i'r chwith lle mae'r ffordd yn ymrannu. Parhewch i fyny trwy goedwig gan anwybyddu unrhyw droadau i'r chwith cyn gogwyddo tua'r chwith ac i lawr **B** i gyrraedd trac, ac yna trowch i'r chwith i gyrraedd diwedd y llwybr. Y tu mewn i'r coed, trowch i'r dde dros bont droed a dilynwch y llwybr i fyny a thrwy'r goedwig a'r ardd i Maesywengoch. Ewch trwy fynedfa i'r iard ac ewch allan trwy giât ar yr ochr gyferbyn, yna ewch ar hyd y trac mynediad disgynol. Lle mae'r trac yn gwyro i'r dde, parhewch ar hyd llwybr a chanddo arwyddion, croeswch gamfa a phont droed ac yna dilynwch y llwybr i fyny'r bryn ac ymlaen wrth iddo wro i'r chwith ar waelod llethr. Ar gyffordd ger wal ddarniog trowch i'r chwith i gyrraedd trac arall, gan droi i'r chwith eto i gerdded i lawr at giât a chamfa.
- 4 Ewch dros y gamfa a throwch ar unwaith i'r dde i fyny cyn cadw i'r chwith i ddilyn llwybr bach corsiog a coed wedi'u cwmpo ar yr ochr dde. Mae hyn yn raddol yn agosáu at y nant ar yr ochr chwith ac ewch dros bont droed fach er mwyn ei chroesi. Trowch i'r chwith i gerdded i fyny'r llethr ac i groesi trac i gerdded fyny rhwystr tân serth **C** yn y goedwig.

- 5 Wrth gyrraedd y brig, ewch i'r dde trwy giât a pharhewch ar hyd llwybr gweundir **D** â ffens ar eich ochr chwith, ewch o gwmpas pen Cwm Breichiau gan anelu at y bwlch rhwng y ddau fryn o'ch blaen. Ewch dros gamfa a cherddwch hyd ddiwedd y ffens. Cadwch i'r chwith a cherddwch ar hyd ochr y bryn, cyn gogwyddo i'r chwith i lawr llwybr bach sydd yn ymuno â llwybr islaw a throwch i'r chwith.
- 6 Lle mae'r llwybr yn gwyro i'r chwith, trowch i'r dde i gerdded i lawr y llethr, trwy giât ac ar draws y cae ar lwybr bach i gyrraedd ochr dde brig y cribyn. Ewch trwy agoriad giât ac yna cadwch i'r chwith i fyny tuag at bostyn cyfeirio. Parhewch i'r un cyfeiriad tan i chi gyrraedd ail a thrydydd postyn **E**. Ewch hanner ffordd i lawr i'r dde i ganfod giât a llwybr sy'n mynd i lawr ochr chwith y cribyn. Parhewch i lawr y llwybr tan iddo ddod i ben ac yna ewch ar i lawr gan wro ychydig i'r chwith i gyrraedd trac ac yna dilynwch trwy giât a pharhewch â'r nant ar y chwith.
- 7 Lle mae'r trac yn gwyro i'r chwith ewch i fyny'r llethr gan gadw'r ffens ar eich ochr dde a pharhewch i lawr trwy giât gyda'r ffens ar eich ochr dde er mwyn troi i'r dde wrth gyrraedd trac. Ewch trwy'r giât ac yna cerddwch i lawr i groesi grid gwartheg a phont ffordd ac ar hyd lôn i ymuno â'r ffordd dechreuol ar bwynt **2** ac ewch yn ôl ar hyd y ffordd y buoch arni i'r pentref.

Taith Pennal Walk



- 3 Here turn *R* down the bank and then *L* and on across the hillside, going *L* at the fork, and on up through a woodland, ignoring any turnings on the *L* before swinging *L* and down **B** to reach a forestry track, then turn *L* to the end of the track. Just inside the trees turn *R* over a *FB*, and follow the path uphill and through woods and garden to Maesywengoch. Go through a gateway into the courtyard and exit through a *G* on the opposite side, and take the descending access track. Where it swings *R* continue ahead along signposted path, cross a *S* and *FB*, and then follow the path up the hill and on as it veers *L* at the base of a slope. At a junction next to a wall fragment turn *L* to reach another forestry track, turning *L* again to walk downhill to a *G* and *S*.
- 4 Over this and immediately *R* uphill before bearing *L* to follow a faint boggy track with clearfell to the *R*. This gradually closes with the stream on the *L* to cross over a small *FB*. Turn *L* to walk up the bank, then *R* and on up to cross a forestry track to a steeply ascending path up a firebreak **C** in the trees.

1 Start from bridge in the village **A** and walk away from the main road to follow Wales Coast Path signs up a side road past two large chapels to go out of the village.

2 At a fork turn *R* and then further on turn *R* up a forestry track, past a parking area on the *L*, and keep *L* at the next 2 forks to cross a bridge. Walk *L* around the hairpin bend to follow the track uphill, until it bears sharp *L* in front of a twin telegraph pole.



- 5 Emerging at the top, go *R* through a *G*, and continue along a moorland path **D** with a fence on your *L*, around the head of Cwm Breichiau heading for the gap between the 2 hills ahead. Climb a *S* and walk to the end of the fence. Bear *L* and contour the side of the hill, before veering *L* down a faint path which eventually joins a track below and turn *L*.
- 6 Where track bends *L*, turn *R* to walk down the bank, through a *G*, and across the field on a faint path to the *R* of the ridge crest. Go through a gate opening and then bear *L* uphill towards a waymarker post. Continue in the same direction, to a second and third post **E**. Drop down half *R* to find a *G* and track which descends the *LH* side of the ridge. Continue down the track until it peters out and then downhill veering slightly to the *L* to reach another track and follow it down beside the valley, through a *G* and on with the steam on the *L*.
- 7 Where it bends *L* go up the bank, keeping the fence on your *R* and continue down through a *G*, with fence on *R* to turn *R* at a track. Go through *G*, then walk downhill to cross a *CG* and road bridge and on along lane to join your outward route at **2** and retrace your steps back to the village.